



Ein cyf/Our ref: qA1404970

Richard Matthams
Rheolwr Cynllunio Datblygu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

14 Medi 2022

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: Llithriant o ran Cytundeb Cyflawni

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)

Diolch am eich neges e-bost dyddiedig 09 Medi 2022 yn rhoi gwybod i ni fod holl gyfarfodydd y Cyngor wedi'u gohirio yn ystod y pythefnos yn dechrau 12 Medi, a hynny o ganlyniad i farwolaeth Ei Mawrhydi Brenhines Elizabeth II. O ganlyniad i'r cam hwn, sy'n adlewyrchu'r cyfnod cenedlaethol o alaru, ni fydd cyfarfod y Cyngor ar 14 Medi lle roeddech yn ceisio penderfyniad ffurfiol y Cyngor i gyflwyno eich Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'w archwilio yn cael ei gynnal mwyach.

Rwy'n ymwybodol bod cyfarfod arall y Cyngor wedi'i drefnu ar gyfer 19 Hydref, lle gellir cael penderfyniad ffurfiol i gyflwyno'r CDLI er mwyn iddo gael ei archwilio. Fodd bynnag, oherwydd dyddiad y cyfarfod, mae hyn yn mynd â'ch cynllun y tu hwnt i'r cyfnod llithriant o dri mis a nodir yn yr Ail Gytundeb Cyflawni diwygiedig, y cytunwyd arno ar 10 Rhagfyr 2021.


Un o'r 'Profion Cadernid' y dylid ei ddefnyddio i ystyried pob CDLI yw'r gofyniad gweithdrefnol i'r gwaith o baratoi'r cynllun gydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, sy'n cynnwys yr amserlen ac unrhyw gyfnod llithriant. Mewn egwyddor, os na chymerir camau, gellid gofyn a yw eich cynllun yn cydymffurfio â'r profion gweithdrefnol.

Mae marwolaeth Ei Mawrhydi Brenhines Elizabeth II wedi arwain at gyfnod cenedlaethol o alaru na allai neb fod wedi ei ragweld pan gytunwyd ar eich Cytundeb Cyflawni diweddaraf yn 2021. Nid yw gofyn am drydydd adolygiad o'r Cytundeb Cyflawni ar y sail hon yn unig yn gam gweithredu priodol, a byddai'n arwain at ohirio diangen gyflwyno'r CDLI. Ni fyddai effaith andwyol ar unrhyw randdeiliaid os cyflwynir y CDLI ar ôl cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref, gan mai cymeradwyo'r cynllun i'w gyflwyno yw'r penderfyniad sydd ei angen a dim arall.

Hoffwn gadarnhau na fydd cyflwyno'r cynllun ar ôl penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor yn ystod y cyfarfod ar 19 Hydref yn gwrthdaro â'r ail Gytundeb Cyflawni diwygiedig. Mae'r safbwynt hwn yn adlewyrchu arwyddocâd cenedlaethol digwyddiadau diweddar, ac ni cheir unrhyw effaith andwyol ar randdeiliaid.

Dylid sicrhau bod y llythyr hwn ar gael i'r cyhoedd bellach, yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Rheoliad 10, sy'n cyd-fynd â'r ail Gytundeb Cyflawni diwygiedig.

Yn gywir,



Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Chief Planner

CC:

Gareth Denning Gareth.Denning@bridgend.gov.uk

Adam Provoost, Prif Swyddog Cynllunio Strategol Adam.Provoost@bridgend.gov.uk

Jonathan Parsons, Rheolwr Cynllunio a Datblygu
Jonathan.Parsons@bridgend.gov.uk